Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref A--PAA-12-02-094

Dyddiad / Date 16 Mehefin 2001

Annwyl

RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (ASESIADAU EFFAITH AMGYLCHEDDOL) (CYMRU A LLOEGR) 1999
DATBLYGIAD ATODLEN 2: CATEGORI'R PROSIECT 10b "PROSIECTAU DATBLYGU TREFOL"

Diben y llythyr hwn yw egluro'r sefyllfa'n ymwneud â'r angen i sgrinio datblygiadau tai arfaethedig at ddibenion Assesiad Effaith Amgylcheddol (EIA). Mae hefyd yn fodd o atgoffa'r Awdurdodau Cynllunio o gwmpas eang Cyfarwyddeb yr EIA ac felly Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiadau Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, sy'n gweithredu'r Gyfarwyddeb cyn belled ag y bo'n berthnasol i waith datblygu o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Rhaid i mi bwysleisio yn gyntaf mai mynegi barn yn unig y gallwn wneud ar ba brosiectau sy'n cyd-fynd â'r disgrifiadau o'r datblygiadau er mwyn pennu a yw'n Ddatblygiad Atodlen 1 neu 2. Dim ond Llys all ddyfarnu yn hyn o beth.

Er nad yw datblygiadau tai yn gategori penodol yn Atodlen 1 na 2 Rheoliadau EIA, cyfeirir at "anheddau" yn A.19 o Atodiad A Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 "Asesiad Effaith Amgylcheddol". Mae'r Atodiad hwn yn darparu trothwyon dangosol a meini prawf ar gyfer clustnodi datblygiadau Atodlen 2 y mae angen EIA arnynt.

O ganlyniad i natur bwrpasol y Gyfarwyddeb EIA - pennu a oes angen cynnal EIA o'r prosiectau os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd - a dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop bod gan Gyfarwyddeb yr EIA gwmpas ac ystod eang, mae'r Cynulliad yn credu bod datblygiadau tai yn cyd-fynd â'r disgrifiad o'r categori "prosiectau datblygu trefol", ym mharagraff 10(b) o Atodlen 2 Rheoliadau EIA.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon / Tel: 029 2082 3580 Est / Ext:3580
GTN: 1208 3580
Ffacs / Fax: 029 2082 5622
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:Kay.Powell@Wales.gsi.gov.uk

Felly, rydym yn disgwyl i'r awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu barn sgrinio mewn perthynas â'r holl ddatblygiadau tai sydd dros 0.5 hectar, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Yn yr ardaloedd a ddynodwyd yn "ardaloedd sensitif" - fel a ddiffinnir yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau EIA - lle nad yw'r trothwyon cyfyngedig yn berthnasol, rhaid i'r holl ddatblygiadau tai gael eu sgrinio ar gyfer EIA.

Nid yw'r prosiectau a restrir yn y categori ym mharagraff 10(b) o Atodlen 2 yn gyflawn. Wrth ystyried a ddylid sgrinio datblygiad arfaethedig ar gyfer EIA, dylid ystyried dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop ar gwmpas ac ystod Cyfarwyddeb yr EIA. Os ydych yn ansicr ynghylch a fyddai datblygiad arfaethedig penodol yn cydymffurfio â'r disgrifiad o'r categori "datblygiad trefol", neu unrhyw gategori arall, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun.

Rhaid bod barn sgrinio a barn bwmpasu'r awdurdodau lleol, cyfarwyddiadau'r Cynulliad a dogfennau perthnasol ar gael i'w gweld gan y cyhoedd, yn unol â Rheoliad 20.

Er gwybodaeth, datganiad ysgrifenedig o farn yr awdurdod cynllunio perthnasol ynghylch a oes angen cynnal EIA mewn perthynas â'r datblygiad yw barn sgrinio. Datganiad ysgrifenedig o farn yr awdurdod cynllunio perthnasol ynghylch pa wybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad amgylcheddol yw barn gwmpasu. Caiff y cyfarwyddiadau sgrinio a chwmpasu eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn sicrhau bod y llythyr hwn yn cael ei ddwyn i sylw eich staff rheoli datblygu sy'n gyfrifol am sgrinio datblygiadau arfaethedig ar gyfer EIA, a Chadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ms Victoria Winkler yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar y fewnrwyd.

Yn gywir

Ms Kay Powell
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon / Tel: 029 2082 3580 Est / Ext:3580
GTN: 1208 3580
Ffacs / Fax: 029 2082 5622
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:Kay.Powell@Wales.gsi.gov.uk